



WIGAN OAK
HOTEL
Conferences & Banqueting

ASTUDIAETH ACHOS

Wigan yn Defnyddio Cair i Gefnogi Pandemig Covid-19

Cefndir

Mae argyfwng Covid-19 wedi gweld llawer o bobl a lleoedd yn gorfod addasu i gefnogi'r ymdrech genedlaethol, gyda chanolfannau cynadledda, theatrau a hyd yn oed stadia pêl-droed yn trawsnewid eu swyddogaethau i ddod yn ysbytai maes i gefnogi cleifion sy'n brwydro yn erbyn y firws. Mae hyd yn oed Gwesty Mercure, yn Wigan wedi cyfnwid eu busnes arferol i fod yn lle i orffwys ac adfer i gleifion ar eu ffordd adref o'r ysbyty. Rhannodd Jane Stevens, Rheolwr Technoleg Gynorthwyol Cyngor Wigan fwy am y prosiect, a sut y buont yn gweithio gyda Cair i ddarparu technoleg gynorthwyol i gefnogi'r cleifion a'r staff. Defnyddiwyd dau lawr yng Ngwesty'r Mercure, ar gyfer unrhyw un sydd angen defnyddio'r safle, i helpu i sicrhau bod ysbytai yn gallu delio ag achosion yn gysylltiedig â covid-19. Y bwriad oedd darparu man cymorth i'r rhai sy'n gwella, ond yr oedd angen eu hynysu oddi cartref, neu ar gyfer y rhai a fyddai fel arfer yn elwa o leoliad cam i lawr ar ôl rhyddhau o ysbyty. Mae cymysgedd o bobl wedi elwa o'r cyfleuster, gan gynnwys galluogi seibiant gofalwr i deulu mewn angen.

Ateb

Mae'r cyfleuster yn cael ei fonitro gan staff 24/7, gan staff sydd wedi'u hail-leoli o fewn y cyngor. Er mwyn sicrhau bod pawb yn eu hystafelloedd yn gallu galw am help, roedd technoleg gynorthwyol yn hanfodol i alluogi eu diogelwch, ac i'r staff allu gweithio mor effeithiol â phosibl. Mae larwm personol 'Onyx' ym mhob ystafell, y gall y person ei bwyso i alw am help pe bai'n teimlo'n sâl. Mae'r larwm personol wedi'u cysylltu â 2 derbynnydd larwm cludadwy Buzzz, sy'n cael eu monitro gan aelodau staff. Yn ystod y nos, lle mae angen llai o staff, rhoddir un Buzzz i staff diogeled, fel y gall yr aelod o staff alw am help pe bai angen cymorth arno. Mae yna hefyd gysylltiadau drws sy'n monitro symudiadau'r mynedfeydd blaen a chefn, er mwyn sicrhau diogelwch pawb ar loriau'r gwesty. Mae pob unigolyn sy'n aros yma yn cael ei asesu i ddeall ei anghenion a nodi unrhyw dechnoleg gynorthwyol arall sydd ei hangen, y gellir ei hychwanegu at y system yn gyflym ac yn hawdd. Dywedodd Jane "Ymatebodd Cair yn gyflym i'n cais a olygai y gallem osod yr offer yn sydyn. Rydym bob amser yn dewis y derbynnydd larwm cludadwy Buzzz oherwydd ei fod yn syml ag yn hawdd ei ddefnyddio. Mae'r staff sy'n gweithio ar y safle hwn wedi dod o rannau gwahanol o'r cyngor, ac er bod rhai ohonynt wedi arfer gweithio mewn amgylchedd gofal, nid yw llawer ohonynt. Roedd angen i mi sicrhau bod unrhyw offer yn mynd i fod yn syml i'w ddefnyddio, a gyda'r Buzzz gallwch chi enwi'r synwryddion yn hawdd, ac mae'n hawdd cydnabod larymau. Rwy'n hoffi offer sy'n gwneud beth mae'n ei addo, dyna beth rydw i bob amser yn ei ystyried pan fyddaf yn prynu unrhyw beth, ac mae offer Cair yn gwneud hynny. Rheswm arall dros ddewis y Buzzz oedd ei fod yn casglu data, ac mae hynny'n bwysig i ni ar y wefan hon".



Cair (UK) Ltd.

Hanson Lane, Halifax, West Yorkshire, HX1 4SD

T: 01422 399 155 E: sales@we-cair.com W: www.we-cair.com